

## **Cyngor Cymuned Llanelian (256)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Gorffennaf 8, 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Hefina Williams T Elfyn Hughes David Gerrard	Gordon Hayes Helen Hughes Cyng. Aled M Jones	Carol Whitaker John Griffiths	Thomas D Jones Glenys Jones
------------	--	--	----------------------------------	--------------------------------

Ymddiheuriadau:	Dafydd Griffiths	Cyng. Richard Jones	Cyng. Wil Hughes
-----------------	------------------	---------------------	------------------

### **1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Hefina Williams a chroesawyd pawb i'r cyfarfod**

### **2 Datgan Diddordeb**

Neb yn datgan diddordeb.

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig TD Jones, Eilio C Whitaker.

### **4 Materion yn Codi**

- 4.1 Materion Parcio - dosbarthwyd copiâu o gofnodion cyfarfod yr is-bwyllgor gydag Alun Roberts (Swyddog Parcio'r Cyngor Sir). Diolchwyd i Cyng. AM Jones am drefnu'r cyfarfod ac am ei gefnogaeth a'r mater. Darllenwyd e-bost oedd wedi ei anfon gan A Roberts at sylw Cyng. AM Jones. Cytunwyd anfon e-bost i ddatgan siom yr aelodau yn dilyn oedi pellach cyn datrys y broblem. CET
- 4.2 Mynwent Llanelian - dosbarthwyd copiâu o gofnodion cyfarfod yr is-bwyllgor er gwybodaeth.
- Fe gytunodd pawb oedd yn bresennol y dylid codi costau claddu i fod ochr yn ochr â chostau Llanwenllwyfo sef £219 am safle newydd a chladdedigaeath, ac £103 am waith i garreg. CET
  - Cynlluniau i ddatblygu'r Fynwent - rydym yn disgwyl cael prisiau gan wahanol gontractwyr am y gwaith. CET
  - Giât - Mae Cyng. AM Jones wedi bod mewn cysylltiad â Dave Jump sydd wedi cadarnhau mai polisi'r Cyngor Sir yw codi am ymweliadau i safleoedd. Fe ofynnwyd a oedd modd cael gweld cofnodion y Cyngor Sir ble trafodwyd y polisi yma a pha bryd y cafodd ei fabwysiadu. CET
  - Mae prisiau wedi eu derbyn am giât newydd ac am drwsio'r giât bresennol - £3900+TAW. Mae prisiau am y gwaith yn dal i ddod i mewn gan arbenigwyr eraill. Fe ofynnwyd i'r Clerc edrych os oes posib dadgofrestru'r giât. CET
- 4.3 Newid defnydd - mae swyddog gorfodaeth wedi bod i ymweld ag adeilad y Post, ac nid oes gweithgareddau i'w gweld yn torri unrhyw reolau. Os oes unrhyw un a mwy o wybodaeth, dylid ystyried cysylltu â'r adran orfodaeth yn uniongyrchol.
- ### **5 Cynllunio**
- 5.1 Cafwyd wybod bod cais Tan Terfyn (24C166B) wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir.
- ### **7 Materion Ariannol**
- 7.1 Adroddiad cyllidol- mae argraffiad o daliadau a derbyniadau'r Cyngor am gyfnod Ebrill-Mawrth 2014 ar gael i unrhyw un oedd am ei weld a gwneud sylw.
- 7.2 Archwiliad Allanol - mae ffurflen UHY Hacker Young wedi ei ddychwelyd ac maent yn bwriadu cyhoeddi tystysgrif archwilio yn ddiamod. Llofnodwyd y ffurflen gan y Clerc a'r Cadeirydd i ddatgan bod y Cyngor yn derbyn sylwadau'r archwilydd. CET
- 7.3 Taliadau – Cymeradwywyd y taliadau canlynol -
- Cylch Meithrin Penysarn (Cyfraniad) £50
  - Carli Evans-Thau (Cyflog Ebrill-Mehfein 2014) £929.44
  - Carli Evans-Thau (Costau Ebrill – Mehfein 2014) £213.54
  - HMRC (PAYE hyd 5/7/2014) £36.33
  - Ysgol Gynradd Penysarn (Gwobr Gwyn Roberts) £10
- ### **8 Gohebiaeth**
- 8.1 Urdd - daw llythyr gan fudiad yr Urdd yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau cynnal eu canolfan ym Mhenmynydd. Trafodwyd eu cais drwy lythyr agored a theimlwyd bod geirio'r llythyr yn gamarweiniol ac yn rhoi'r argraff anghywir o'u sefyllfa bresennol. Cytunwyd y dylid cydnabod eu llythyr ac esbonio bod y Cyngor yn cyfrannu tuag at, ac yn cefnogi mudiadau yn y gymuned leol megis yr Ysgol a'r Cylch Meithrin. CET
- 8.2 CoRWM (Committee on Radioactive Waste Management) - daw e-bost yn hysbysu bod nifer o CET DG

gyfarfodydd cyhoeddus yn cymryd lle ar hyn o bryd ac y bydd cyfarfod agored ger Wylfa Medi 4ydd. Er gwaethaf y si yn y newyddion yn ddiweddar am ddatblygiadau yn ymwneud a storfa gwastraff niwclear ar yr ynys, dyma ddechrau'r broses trafod ac ymgynghori ac nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud. Cytunwyd y byddai un ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn mynychu ar ran y Cyngor. HW

- 8.3 Clerks and Councils Direct – rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn
- 8.4 Grid Cenedlaethol - diweddariad ar eu ymgynghoriad ar brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar [www.nationalgrid.com/cysylltiadgogleddcymru](http://www.nationalgrid.com/cysylltiadgogleddcymru)
- 8.5 Hyfforddiant Cod Ymddygiad – mae dyddiad wedi ei gadarnhau ar gyfer yr hyfforddiant sef 30/10/2014.
- 8.6 Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon - mae'r ail rifyn o'r argraffiad ar gael - roedd copi ar gael i'r rheini oedd am ei weld, ac fe ofynnwyd i'r Clerc e-bostio'r rheini oedd a chyfeiriad ebost. CET
- 8.7 Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon – mae copi ar gael i'r rheini sydd am ddarllen y ddogfen.
- 8.8 Un Llais Cymru - gwybodaeth gyffredinol a chanllawiau ar ddiogelu data. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn e-bostio copi i'r rheini gyda chyfeiriadau ebost. CET

## 9 Unrhyw Fater Arall

- 9.1 Nodwyd pryder nad oedd gwasanaeth ffon i dai yn ardal Llanelian wedi bod yn dda iawn, a bod rhai tai wedi bod heb ffon am bron i dair wythnos. Mae llawer o bobl hyn yn byw yn yr ardal, ac nid yw signal ar gyfer ffonau symudol yn rhy wych yr ardal. Cytuno y dylid ysgrifennu at BT i gwyno a thynnu sylw at y broblem. Bydd Cyng. AM Jones hefyd yn ysgrifennu atynt. CET AMJ
- 9.2 Difrod yn y Cae Chwarae - cafwyd wybod gan H Williams bod dwy ferch ifanc (un ohonynt yn ddisgybl yn yr Ysgol Gynradd) wedi rhoi'r bin ar dan yn y cae chwarae. Roedd y frigâd dan a'r heddlu wedi eu galw yno i ddelio a'r broblem. Trafodwyd y posibilrwydd o gael bin newydd a chytunwyd edrych ar gostau bin haearn. Gofynnwyd i Cyng AM Jones ofyn i'r Cyngor Sir os oedd modd cael bin ar y ffordd y tu allan i'r cae chwarae. CET AMJ
- 9.3 Daw i sylw'r Cyngor bod plant 6/7 oed yn dringo'r coed yn y parc ac yn neidio oddi arnynt.
- 9.4 Gardd Toprallt - fe gadarnhaodd G Hayes nad yw'r Clwb Ieuencid yn gallu cynnal a chadw'r ardd a'r maes parcio gan eu bod ynghlwm a'r cae chwarae yn barod. Fodd bynnag, fe fyddent yn cynnal a chadw'r gofologfn eleni fel rhan o brosiect i gofio am y Rhyfel Byd.
- 9.5 Gwobr Gwyn Roberts - bydd y wobr yn cael ei gyflwyno yn yr Ysgol ar ddiwedd y tymor. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu bod siec yn cyrraedd y prifathro cyn gynted â phosib. CET
- 9.6 Biniau Ail-gylchu - mae'r biniau wedi eu gwagio, ond mae pentwr o ysbwriel yn parhau o'u hamgylch. Bydd Cyng. AM Jones yn cysylltu â'r adran wastraff. AMJ

## 10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 5/8/2014, 2/9/2014, 14/10/2014

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 7.50 o'r gloch.